



Cyflwynir gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran  
Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau  
Datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon

## Wales - Round 3 Awards

APPLICANT NAME	PROJECT DESCRIPTION	AWARD
RSPB Cymru	This two year project will develop the existing visitor facilities at RSPB Cymru South Stack on the west coast of Anglesey to improve the tourism experience. The revenue element of the project will be used for salary costs of three existing visitor centre staff and one new post, along with marketing, overheads and other associated project costs. The capital part of the project will include the purchase of high definition cameras and a CCTV system which will be used to showcase the activities of various bird populations directly into the South Stack visitor centre and to the Ellins Tower information centre. Camera equipment will be installed for the first time on The Skerries, a rocky outcrop to the north east of South Stack, to catch live movements of the Arctic Tern colony. In addition, footpaths to and from the visitor centre that link with the Wales Coastal Path will be upgraded.	£267,843
Porthcawl Harbourside Community Interest Company	Porthcawl Harbourside's two year 'Coastal Life and Watersports Centre' project will further develop the Marina/Harbour quarter in the area by increasing boat capacity, providing new water sports activity provision as well as education facilities for visitors and locals. The main activities of the project will include the installation of dry	£297,597

	<p>racking facilities, the piloting and later launch of the 'Coastal Encounters' programme and local heritage education and recreation packages. Towards the end of the project a boat yard operator and education assistants will be hired to help run the facility, with additional indirect posts being created to help run tourist boat trips and other businesses. The project will benefit 15 local businesses, 8 sustainable direct/indirect jobs and 4 micro business as well as extend the tourism season.</p>	
<p>Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg</p>	<p>The two year project will establish a new full time Welsh language childcare provision in Llandudno Junction on the Conwy coast. In addition to child care services from 8:00am - 6:00pm, the project will also provide breakfast, after school and holiday clubs. Numerous services and activities for children aged 0-11 years are detailed. The project has purchased a 125 year lease on their premises. The building will also be utilised as a community facility after 6:00pm for various additional activities e.g. language lessons, training and community activities through the medium of Welsh. The project will create three full time and two part time jobs in year one, with an additional full time job to meet demand in year two.</p>	<p>£283,898</p>
<p>Cwm Harry Land Trust Ltd</p>	<p>This one year project will create a new cafe to serve the Moelyci Environmental Visitor and Education Centre just outside of Tregarth, near Bangor in Gwynedd. Cafe, kitchen equipment and tables and chairs will be purchased to equip the building so as to provide hot and cold refreshments to visitors and locals. The cafe will create one new job and will procure fresh food from local growers and the site. This will help to create four indirect jobs and safeguard one further job. In</p>	<p>£75,000</p>

	addition, bilingual signage, signposting and interpretation information will be improved to encourage more tourists to the centre.	
Cardiff Marine Group Ltd	The project will make significant improvements to Aberystwyth harbour & marina, upgrading the infrastructure of the marina pontoons and services to provide a destination led and integrated facility. The CCF application is the first stage of a larger three stage project to rejuvenate the harbour facilities, stage one will entail dredging the harbour basin to allow larger boats to moor, upgrade of existing marina pontoons, the addition of new berths (from 80 to 183), provision of improved services (wi-fi, electricity, water), aesthetic/visual improvements to the marinas presentation and provision of full marine services (repairs, engine servicing & boat brokerage). The applicant confirms they expect a split of 80% permanent moorings and 20% visitor moorings based on their other sites occupancy. The project will deliver both direct and indirect job opportunities, provide environmental assistance in relation to flooding and attract a greater volume of visitors to the area.	£300,000
Sustrans Limited	The two year project will construct a new walking and cycling path, which will link Pembrey to Kidwelly. It will provide direct access into Pembrey Country Park and the Millennium Coastal Path, both key tourism destinations along the Carmarthenshire coast. The path will also link to two existing walking and cycling routes that are popular with tourists and local users. In addition to the 1.6km path, which will be constructed along a disused railway line that runs through the heart of Pembrey, the project will also upgrade and install new signage along 10km of	£299,364

	<p>the route between Burry Port and Kidwelly. The route will form part of the Celtic Trail (NCN Route 4). The project, to be delivered in partnership with Carmarthenshire County Council (CCC), will benefit 79 local businesses and receive 50,000 users per year.</p>	
Antur Waunfawr	<p>Antur Waunfawr's 2 year project aims to develop a recently purchased existing business as a social enterprise that will provide bicycle sales, hire, repairs and recycling. The business will offer training and work experience by employing people with learning disabilities and unemployed or disadvantaged young people. The project will link with the Caernarfon Castle World Heritage Site and will provide a range of bicycles for hire including specialist bikes for people with disabilities. A Business Development Officer will be appointed to co-ordinate the development of the business, together with a Cycle Development Officer, 4 trainee/work experience posts and 6 part-time apprenticeships/training posts through Jobs Growth Wales.</p>	£238,056
Becws Islyn Bakery Ltd	<p>This two year project will develop the small, family-run Becws Islyn Bakery business, enabling them to produce a greater amount of artisan products to maximise sales opportunities with local residents, tourists and local businesses. The revenue element of the project will cover full-time salary costs of an existing Bakery Manager post and two new posts of Assistant Manager and Baker. Capital funding will be used to purchase new bakery equipment, develop second floor rooms into workshops for community baking groups, and a vehicle to widen their distribution networks.</p>	£132,000
Neath Port Talbot County Borough Council	<p>Neath Port Talbot County Borough Council's one year project will construct an Adventure Golf Course</p>	£205,200

	<p>at Aberavon Seafront. This will enhance and compliment existing businesses and attractions as it will add value to Aberavon Seafront. This CCF funding, and the project as a whole, will only be funding the capital build of the golf course. The running of the facility will be put out to tender with NPTCBC expressing an interest for it be run as a social enterprise. It will employ 3 full-time individuals.</p>	
<p>Tape Community Music and Film Limited</p>	<p>This two year project will establish an annual film festival. The festival will take place along the coast of North Wales, in Denbighshire and Conwy. The festival will take place in October each year in order to stimulate increased tourist traffic and spend at a critical time of year to secure enhanced, extended employment and business opportunities. The project will work in partnership with local organisations to use existing community arts hubs. The revenue element of this project will cover the part time salary costs of a project manager, 2 festival workers, 4 film project workers and a heritage project lead. The capital budget will cover equipment including a PA system, projectors and screens, generator, seating, laptop and gazebos.</p>	<p>£224,304</p>
<p>Groundwork North Wales</p>	<p>This two year project involves the purchase of a purpose built sales tricycle and recruiting and training persons to operate it along a section of the North Wales Coastal Path, providing tourist information, basic first aid and hot drinks and other refreshments to walkers and cyclists using the path. The revenue elements of the project will cover full time salary costs of one FTE Project Officer who will operate the tricycle. Capital funding will be used to purchase the tricycle. The tricycle will be equipped with a battery which will heat the water (partially recharged by a solar panel) and storage space for cups,</p>	<p>£54,615</p>

	<p>powdered drinks, sugar and milk. Machines are equipped with a built-in water tank, on-board waste tank, sink unit and storage area. Customers will be charged an extra amount per cup on a deposit basis, refundable when the cup is returned to the vendor. This is to reduce the likelihood of rubbish being abandoned on the path and to encourage other walkers to collect any cups they see dumped to reclaim the deposit.</p>	
<p>Chapel Bay Fort &amp; Museum</p>	<p>The two year project, based in Angle on the Pembrokeshire coast will provide improved access and support a larger overall project of restoring a unique Ancient Scheduled Monument. The site will be opening to the public as a Museum and interpretation centre for the military and social history of Pembrokeshire. The capital grant will enable widening the entrance from the road, grading and surfacing the access road, creating passing spaces and a hard stand parking area. Full year-round public access will ensure the economic viability and sustainability of the enterprise and its contribution to the local economy, through increased tourism and the creation of direct and indirect jobs. The project will create three FTE construction jobs in 2015, with up to six FTE jobs in the cafe, museum and maintenance of the site by December 2016.</p>	<p>£270,626</p>
<p>Vale of Glamorgan Council</p>	<p>Vale of Glamorgan County Council's 'Maximising the employment potential of the Glamorgan Heritage Coast' project will encourage the development of new businesses along the Heritage Coast. This will be achieved through a number of activities including the employment of a full time specialist Glamorgan Heritage Coast Activities Development Officer, the creation of business storage units for off and on shore activities, the replacement of the</p>	<p>£224,760</p>

	<p>slipway at Dunraven Bay and the placement of interpretative units. By creating this new infrastructure, new businesses will be able to locate on Dunraven Bay and the Heritage Coast will benefit from increased awareness and exposure. The Vale Of Glamorgan County Council will also use funds, such as £40,000 from the Local Development Strategy, to test the feasibility of new activities along the coast with pilots.</p>	
<p>Menter Aberteifi Cyfyngedig</p>	<p>Menter Aberteifi Cyf's 2 year project will re-establish and develop Cardigan Market Hall as a sustainable business hub for market traders and micro-enterprises. The aim of the project is to aid the development of new businesses and safeguard a cluster of 18 existing micro-businesses. The Market Hall will be will managed and promoted to create a vibrant hub for local traders and producers, creating a sense of place and increasing footfall throughout the town centre. The project will provide training and networking opportunities for producers and test trading opportunities for business students and young entrepreneurs. The applicant has entered into a 3 year management agreement with Ceredigion County Council who own and previously managed the Market Hall. The project will create 3 new part-time posts of Facility Manager with responsibility for business development, marketing and events management, a part-time Administrator and a part-time Caretaker.</p>	<p>£109,974</p>
<p>Vale of Rheidol Railway Limited</p>	<p>The project will provide high quality heritage skills training within the working environment of the Vale of Rheidol Heritage Railway. This will fully equip their workshop with all the necessary engineering equipment to create a suitable working environment to start the process of training new</p>	<p>£288,000</p>

	<p>apprentices. With the addition of two new engineers and four apprentices the railway will develop a sustainable engineering future with the apprentices learning on the job from skilled craftsmen and also achieving qualifications through attending college. By building a strong engineering team the railway will also make itself less reliant on seasonal streams of income and on subcontracted companies whose prices are increasing dramatically due to the small pool of engineers and expertise available.</p>	
Cyngor Tref Nefyn	<p>Nefyn Town Council's two year project will improve a section of the Wales Coast Path between Nefyn and Morfa Nefyn to make the coast path accessible to people with disabilities including wheelchair users and young families. It will also improve and re-open sections of an historic 10 mile route, Llwybr y Morwyr (The Sailor's Path) from Nefyn to Llanbedrog, creating a new waymarked route between the north and south coasts of the Llŷn Peninsular. The capital element of the project over one year will include resurfacing of the coastal footpath from Nefyn to Morfa Nefyn and work on Llwybr y Morwyr including clearing overgrown sections of the public rights of way, fencing, boardwalks and installation of sleeper bridges, stiles and gates. A full-time Co-ordinator will be employed to project manage the capital work and promote and market the new walking routes and the history and culture of the area. The project will also link with the community bus service 'O Ddrws i Ddrws' to provide pick-up and drop-off services for walkers along the route.</p>	£300,000
Ceredigion County Council	<p>The project will raise the profile of the Ceredigion coastline as a place to visit throughout the year. Taking</p>	£150,718



	<p>two parts the first element will focus on enhancing the Ceredigion section of the Wales Coastal Path, through improvements to signage, interpretation work and minor improvement works along the route. Additionally specialist beach head visitor signage will be used to enhance and contribute to the blue flag status of Ceredigion's beaches. The second element of the project will be to employ a Business Development Officer (BDO) to improve the economic performance of coastal communities and the businesses therein. The BDO will work intensively with micro businesses along the Ceredigion coastline both on a 1 to 1 and group basis, identifying trends, signposting services, developing online presence amongst many services offered. Not only will the BDO work with businesses, but communities to promote all aspects and facilities of coastal areas to develop a coherent approach that will be both innovative and sustainable.</p>	
<p>Bluestone Brewing Company Limited</p>	<p>Bluestone Brewing's one year project will adapt existing buildings to provide a visitor facility, complimentary office and bottle storage facilities. This will help the company to facilitate sales and provide a wet weather facility within the Pembrokeshire Coast National Park. It will appeal to tourists and locals with educational and informative displays covering the brewing process, local history and championing the environmental aspects of the small brewery. The building will also showcase a local product to visiting overseas importers/agents and will be able to facilitate commercial meetings with consultants and other parties. As part of this expansionary activity, although not funded by this grant, the group will also take on an additional brewer which will allow one of the directors to move from brewing to sales management</p>	<p>£80,746</p>

	and market expansionary activity.	
Fishguard & Goodwick Chamber of Trade and Tourism	The project will promote and establish North Pembrokeshire as a visitor destination through the development and coordination of the tourism product. By making better use of existing facilities and accompanying them with new events and promotions the applicant will galvanise local businesses and attractions and provide a more cohesive approach to “selling” North Pembrokeshire. Both Stena (Ferries) and Arriva Trains plan to offer targeted marketing and discount packages to tie in with the events calendar to make visiting a more attractive (and cheaper) proposition. The two year project will benefit over 500 tourist and commercial organisations, extend the tourism season and increase visitor spend.	£291,032
Menter Y Felin Uchaf Cyf	This two year project will create a new Centre for Archaeology, Mythology and Storytelling (CAMAS) on the site of Menter Y Felin Uchaf Cyf on the Llŷn Peninsula in Gwynedd. The centre will be hand built, crafted from natural materials and will house digital and state of the art visitor interpretation, exhibition facilities and workshop space for local crafts people. The revenue element of the project will cover the salary costs of a Project Manager, Administrator and overheads. Capital funding will be used for the construction of the building and associated professional fees.	£298,900
Cardigan Bay Watersports	The project will expand the community development/regeneration project which was founded in 2003, by the provision of new products/activities, upgraded equipment and professional management. The grant funding would go towards: <ul style="list-style-type: none"> <li>• A mixed fleet of sailing dinghies, some singled handed</li> </ul>	£123,974

	<p>some double handed to meet the needs of participants aged 16 and older</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Upgrade safety cover boats to meet safety cover ratios specified by the RYA (Royal Yachting Association) and to meet insurance company requirements.</li> <li>• To “Pump prime” (i) Business Development Manager and provide a marketing budget (ii) Senior Seasonal Instructor and an additional multi activity instructor (iii) two trainee positions to expand the resource of qualified staff.</li> <li>• Purchase equipment to introduce new activities (waterskiing, wakeboarding, kayak tours) and train the staff to deliver these.</li> </ul>	
<p>Cyngor Gwynedd</p>	<p>Cyngor Gwynedd’s two year project will develop 13 identified linear or circular routes which link communities to the Wales Coast Path. The aim of the project is to maximise the economic benefit from the Wales Coast Path in five coastal areas of Gwynedd, namely Bangor, Clynnog Fawr, Porthmadog, Barmouth and Aberdyfi. The project will upgrade existing public rights of way and provide improved visitor information by redeveloping the Snowdonia Mountains and Coast website and production of interpretation materials for walkers. It will also work with existing community transport provider ‘O Ddrws i Ddrws’ in the Llŷn area to co-ordinate an on demand pick-up and drop-off bus service for walkers. The project will employ a new Marketing Co-ordinator. The grant request also includes funding for 10 hours a week for the Wales Coast Path Officer and 19 hours a week for the Coastal Warden post. It will also fund the salaries of a Co-ordinator for O Ddrws i Ddrws and a Driver.</p>	<p>£280,205</p>



Cyflwynir gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran  
Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau  
Datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon

## Dyfarniadau Rownd 3 Cymru

ENW'R YMGEISYDD	DISGRIFIAD O'R PROSIECT	DYFARNIAD
RSPB Cymru	Bydd y prosiect dwy flynedd hwn yn datblygu'r cyfleusterau presennol i ymwelwyr yn RSPB Cymru Ynys Lawd ar arfordir gorllewinol Ynys Môn i wella'r profiad i dwristiaid. Defnyddir elfen refeniw'r prosiect i dalu cyflogau tri aelod presennol o staff y ganolfan ymwelwyr ac un swydd newydd, ynghyd â chostau marchnata, costau cyffredinol a chostau cysylltiedig eraill, Bydd rhan gyfalaf y prosiect yn cynnwys prynu camerâu manylder uwch a system teledu cylch cyfyng a gaiff ei defnyddio i arddangos gweithgareddau amrywiaeth o boblogaethau adar yn uniongyrchol yng nghanolfan ymwelwyr Ynys Lawd a chanolfan wybodaeth Twr Elin. Bydd cyfarpar camera'n cael ei osod am y tro cyntaf ar Ynysoedd y Moelrhoniaid, brig creigiog i'r gogledd-ddwyrain o Ynys Lawd i gofnodi symudiadau byw'r gytref Ysgräennod. Hefyd, bydd llwybrau troed i'r ganolfan ymwelwyr ac ohono sy'n cysylltu â Llwybr Arfordirol Cymru'n cael eu huwchraddio.	£267,843
Porthcawl Harbourside Community Interest Company	Bydd prosiect dwy flynedd 'Coastal Life and Watersports Centre Glannau Porthcawl yn datblygu ardal y Marina/Harbwr ymhellach yn yr ardal trwy gynyddu'r capasiti cychod, darparu gweithgareddau chwaraeon a'r newydd yn ogystal â chyfleusterau addysgiadol ar gyfer ymwelwyr a phobl leol. Bydd prif weithgareddau'r prosiect yn cynnwys gosod cyfleusterau rheseli sych, peilota ac yna lansio'r rhaglen 'Coastal Encounters' a phecynnau addysg a hamdden treftadaeth lleol. Tua diwedd y prosiect bydd gweithredwr iard badau a chynorthwyyr addysg yn cael eu hurio i helpu rhedeg y cyfleuster, gyda swyddi anuniongyrchol ychwanegol yn cael eu creu i helpu rhedeg teithiau mewn badau i dwristiaid a busnesau eraill. Bydd y prosiect yn creu buddion ar gyfer 15 o fusnesau lleol, 8 swydd uniongyrchol/anuniongyrchol cynaliadwy a 4 microfusnes yn ogystal ag estyn y tymor twristiaeth.	£297,597

<p>Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg</p>	<p>Bydd y prosiect dwy flynedd yn sefydlu darpariaeth gofal plant Cymraeg yng Nghyffordd Llandudno ar arfordir Conwy. Yn ogystal â gwasanaethau gofal plant rhwng 8:00am a 6:00pm, bydd y prosiect hefyd yn darparu clybiau brechwast, ar ôl ysgol a gwyliau. Manylir gwasanaethau a gweithgareddau niferus ar gyfer plant 0-11 oed. Mae'r prosiect wedi prynu prydles 125 mlynedd ar eu hadeilad, Bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio hefyd fel cyfleuster cymunedol ar ôl 6:00pm ar gyfer gweithgareddau ychwanegol amrywiol e.e. gwersi iaith, hyfforddiant a gweithgareddau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y prosiect yn creu tair swydd amser llawn a rhan-amser ym mlwyddyn un gydag un swydd amser llawn ychwanegol i fodloni galw ym mlwyddyn dau.</p>	<p>£283,898</p>
<p>Cwm Harry Land Trust Ltd</p>	<p>Bydd y prosiect un flwyddyn hon yn creu caffi newydd i wasanaethu Canolfan Ymwelwyr ac Addysg Amgylcheddol Moel-y-ci u tu allan i Dregarth, ger Bangor yng Ngwynedd. Bydd cyfarpar cegin, byrddau a chadeiriau'n cael eu prynu ar gyfer y caffi er mwyn darparu lluniaeth oer a chynnes i ymwelwyr a phobl leol. Bydd y caffi'n creu un swydd newydd ac yn caffael bwyd ffres gan dyfwyr lleol a'r safle ei hun. Bydd hyn yn helpu creu pedair swydd anuniongyrchol a diogelu un swydd bellach. Yn ogystal â hyn, bydd arwyddion, cyfeiriadau a gwybodaeth ddehongli ddwyieithog yn cael eu gwella i annog mwy o dwristiaid i ymweld â'r ganolfan.</p>	<p>£75,000</p>
<p>Cardiff Marine Group Ltd</p>	<p>Bydd y prosiect yn gwneud gwelliannau sylweddol i harbwr a marina Aberystwyth, gan uwchraddio isadeiledd pontynau a gwasanaethau'r marina i ddarparu cyfleuster integredig fel cyrchfan. Cam cyntaf prosiect tri cham mwy i adfywio cyfleusterau'r harbwr yw'r cais CCA, bydd cam un yn ymwneud â threillio basn yr harbwr er mwyn i gychod mwy angori, uwchraddio pontynau presennol y marina, ychwanegu angorfeydd newydd (0 80 i 183), darparu gwasanaethau gwell (wi-fi, trydan, dŵr), gwelliannau esthetig/gweledol i ymddangosiad y marina a darparu gwasanaethau morol llawn (atgyweiriadau, gwasanaethu peiriannau a brocera badau). Mae'r cais yn cadarnhau eu bod yn disgwyl rhaniad o 80% o angorfeydd parhaol a 20% o angorfeydd ymwelwyr yn seiliedig ar eu deiliadaeth ar safleoedd eraill. Bydd y prosiect yn cyflwyno cyfleoedd swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn darparu cymorth amgylcheddol mewn perthynas â llifogydd ac yn denu nifer uwch o ymwelwyr â'r ardal.</p>	<p>£300,000</p>

<p>Sustrans Limited</p>	<p>Bydd y prosiect dwy flynedd yn adeiladu llwybr cerdded a beicio newydd a fydd yn cysylltu Pen-bre â Chydweli. Bydd yn darparu mynediad uniongyrchol i Barc Gwledig Pen-bre a Llwybr Arfordirol y Mileniwm, y mae'r ddau ohonynt yn gyrchfannau twristiaeth allweddol ar hyd y llwybr yn Sir Gâr. Hefyd, bydd y llwybr yn cysylltu â dau lwybr cerdded a beicio presennol sy'n boblogaidd gyda thwristiaid a defnyddwyr lleol. Yn ogystal â'r llwybr 1.6km, a gaiff ei adeiladu ar hyd hen linell reilffordd sy'n rhedeg trwy ganol Pen-bre, bydd y prosiect hefyd yn uwchraddio ac yn gosod arwyddion newydd ar hyd 10km o'r llwybr rhwng Porth Tywyn a Chydweli. Bydd y llwybr yn ffurfio rhan o'r Llwybr Celtaidd (RhBC 4). Bydd y prosiect, sydd i'w gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin, yn creu buddion ar gyfer 79 o fusnesau lleol ac yn derbyn 50,000 o ddefnyddwyr bob blwyddyn.</p>	<p>£299,364</p>
<p>Antur Waunfawr</p>	<p>Mae prosiect 2 flynedd Antur Waunfawr yn anelu at ddatblygu busnes sydd eisoes yn bodoli a brynwyd yn ddiweddar fel menter gymdeithasol a fydd yn gwerthu, hurio, atgyweirio ac yn ailgylchu beiciau. Bydd y busnes yn cynnig hyfforddiant a phrofiad gwaith trwy gyflogi pobl ag anableddau dysgu a phobl ifanc ddi-waith neu ddifreintiedig. Bydd y prosiect yn cysylltu â Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon ac yn darparu ystod o feiciau i'w hurio gan gynnwys beiciau arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau. Bydd Swyddog Datblygu Busnes yn cael ei benodo i gydlynu datblygiad y busnes ynghyd â Swyddog Datblygu Beiciau, 4 swydd hyfforddai/profiad gwaith a 6 phrentisiaeth/swydd hyfforddi ran-amser trwy Dwf Swyddi Cymru.</p>	<p>£238,056</p>
<p>Becws Islwyn Bakery Ltd</p>	<p>Bydd y prosiect dwy flynedd hwn yn datblygu'r busnes popty teulu Becws Islwyn bach, gan alluogi iddynt gynhyrchu mwy o gynnyrch crefftus i fwyafu cyfleoedd gwerthu gyda thrigolion lleol, twristiaid a busnesau lleol. Bydd elfen refeniw'r prosiect yn talu costau cyflogau amser llawn Rheolwr Popty presennol a dwy swydd newydd Rheolwr a Phobydd Cynorthwyol. Defnyddir arian cyfalaf i brynu cyfarpar popty newydd, datblygu ystafelloedd ail lawr fel gweithdai ar gyfer grwpiau pobi cymunedol, a cherbyd i ehangu rhwydweithiau dosbarthu.</p>	<p>£132,000</p>
<p>Tape Community Music and Film Limited</p>	<p>Bydd y prosiect dwy flynedd hwn yn sefydlu gŵyl ffilmiau flynyddol. Cynhelir yr ŵyl ar hyd arfordir Gogledd Cymru yn Sir Ddinbych a Chonwy. Cynhelir yr ŵyl ym mis Hydref bob blwyddyn er mwyn symbylu niferoedd a gwariant twristiaeth ar adeg hollbwysig o'r flwyddyn i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth a busnes gwell ac estynedig. Bydd y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau lleol i ddefnyddio bothau celf gymunedol sydd eisoes yn bodoli. Bydd elfen refeniw'r prosiect hwn yn cynnwys costau cyflog rhan-amser rheolwr prosiect, 2 weithiwr gŵyl, 4 gweithiwr prosiect ffilm ac arweinydd prosiect treftadaeth. Bydd y gyllideb gyfalaf yn cynnwys cyfarpar gan gynnwys system PA, taflunyddion a sgriniau, generadur, cadeiriau, gliniadur a gasebos.</p>	<p>£224,304</p>

Groundwork North Wales	<p>Mae'r prosiect dwy flynedd hwn yn ymwneud â phrynu treisicl a adeiladwyd at y diben a recriwtio a hyfforddi pobl i'w weithredu ar hyd rhan o Lwybr Arfordirol Gogledd Cymru, gan ddarparu gwybodaeth i dwristiaid, cymorth cyntaf sylfaenol a diodydd poeth a lluniaeth arall i gerddwyr a beicwyr sy'n defnyddio'r llwybr. Bydd elfennau refeniw'r prosiect yn talu costau cyflogau amser llawn un Swyddog Prosiect cyfwerth ag amser llawn a fydd yn gweithredu'r treisicl. Defnyddir arian cyfalaf i brynu'r treisicl. Bydd y treisicl yn cynnwys batri a fydd yn cynhesu'r dŵr (wedi'i ailwefru'n rhannol gan banel solar) a lle i storio cwpanau, diodydd powdwr, siwgr a llaeth. Mae'r peiriannau'n cynnwys tanc dŵr integredig, tanc gwastraff integredig, sinc a man storio. Codir tâl ychwanegol ar gwsmeriaid fesul cwpan ar sail blaendal, sy'n ad-daladwy pan ddychwelir y cwpan at y gwerthwr. Mae hyn i leihau'r tebygolrwydd o sbwriel yn cael ei adael ar y llwybr ac annog cerddwyr eraill i gasglu unrhyw gwpanau a adawyd er mwyn adennill y blaendal.</p>	£54,615
Chapel Bay Fort & Museum	<p>Bydd y prosiect dwy flynedd, yn Angle ar arfordir Sir Benfro, yn darparu gwell mynediad ac yn cefnogi prosiect ehangach i adfer heneb gofrestredig unigryw. Bydd y safle'n agor i'r cyhoedd fel Amgueddfa a chanolfan ddehongli ar gyfer hanes milwrol a chymdeithasol Sir Benfro. Bydd y grant cyfalaf yn galluogi ehangu'r fynedfa o'r ffordd, gan raddio a gosod arwyneb ar y ffordd fynediad, creu mannau mynd heibio a maes parcio. Bydd mynediad llawn i'r cyhoedd trwy gydol y flwyddyn yn sicrhau hyfywedd a chynnaladwyedd economaidd y fenter a'i chyfraniad at yr economi leol, trwy gynyddu twristiaeth a chreu swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol. Bydd y prosiect yn creu tair swydd adeiladu CaLl yn 2015 gyda hyd at chwe swydd CaLl yn y caffî, amgueddfa ac wrth gynnal a chadw'r safle erbyn mis Rhagfyr 2016.</p>	£270,626
Cyngor Bro Morgannwg	<p>Bydd prosiect 'Maximising the employment potential of the Glamorgan Heritage Coast' Cyngor Bro Morgannwg yn annog datblygu busnesau newydd ar hyd yr Arfordir Treftadaeth. Cyflawnir hyn trwy nifer o weithgareddau gan gynnwys cyflogi Swyddog Datblygu Gweithgareddau Arfordir Treftadaeth Morgannwg amser llawn arbenigol, creu unedau storio i fusnesau ar gyfer gweithgareddau alltraeth ac artraeth, newid slipffordd Bae Dunraven a gosod unedau dehongli. Trwy greu'r isadeiledd newydd hwn, bydd busnesau newydd yn gallu lleoli eu hunain ar Fae Dunraven a bydd yr Arfordir Treftadaeth yn elwa o ymwybyddiaeth a sylw cynyddol. Hefyd, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn defnyddio arian, megis £40,000 gan y Strategaeth Datblygu Lleol, i brofi dichonoldeb gweithgareddau newydd ar hyd yr arfordir gyda chynlluniau peilot.</p>	£224,760

Menter Aberteifi Cyfyngedig	Bydd prosiect 2 flynedd Menter Aberteifi Cyf yn ailsefydlu ac yn datblygu Neuadd Farchnad Aberteifi fel both busnes cynaliadwy ar gyfer masnachwyr marchnad a microfasnachwyr. Nod y prosiect yw cynorthwyo datblygiad busnesau newydd a diogelu clwstwr o 18 o microfusnesau sydd eisoes yn bodoli. Bydd Neuadd y Farchnad yn cael ei rheoli a'i hyrwyddo i greu both bywiog ar gyfer masnachwyr a chynhyrchwyr lleol, gan greu ymdeimlad o le a chynyddu niferoedd yng nghanol y dref. Bydd y prosiect yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a rhwydweithio ar gyfer cynhyrchwyr ac yn profi cyfleoedd masnachu ar gyfer myfyrwyr busnes ac entrepreneuriaid ifanc. Mae'r ymgeisydd wedi ymgymryd â chytundeb rheoli 3 blynedd gyda Chyngor Sir Ceredigion sy'n berchen ar y neuadd ac a'i rheolodd yn flaenorol. Bydd y prosiect yn creu 3 swydd ran-amser newydd Rheolwr Cyfleusterau gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu busnes, marchnata a rheoli digwyddiadau, Gweinyddwr rhan-amser a Gofalwr rhan-amser.	£109,974
Vale of Rheidol Railway Limited	Bydd y prosiect yn darparu hyfforddiant sgiliau treftadaeth o safon yn amgylchedd gwaith Rheilffordd Treftadaeth Cwm Rheidol. Bydd hyn yn cyfarparu eu gweithdy'n llawn gyda'r holl gyfarpar peirianeg angenrheidiol i greu amgylchedd gwaith addas i gychwyn y broses o hyfforddi prentisiaid newydd. Gyda dau beiriannydd a phedwar prentis newydd, bydd y rheilffordd yn datblygu dyfodol peirianeg gynaliadwy gyda'r prentisiaid yn dysgu yn y fan a'r lle gan grefftwyr medrus a hefyd cyflawni cymwysterau trwy fynd i'r coleg. Trwy adeiladu tîm peirianeg gref bydd y rheilffordd yn gwneud ei hun yn llai dibynnol ar ffrydiau incwm tymhorol ac ar gwmnïau is-gontractio, y mae eu prisiau'n codi'n ddramatig oherwydd y gronfa fach o beirianwyr ac arbenigedd sydd ar gael.	£288,000
Cyngor Tref Nefyn	Bydd prosiect dwy flynedd Cyngor Tref Nefyn yn gwella rhan o Lwybr Arfordirol Cymru rhwng Nefyn a Morfa Nefyn i wneud llwybr yr arfordir yn hygyrch i bobl ag anabledau gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn a theuluoedd ifanc. Bydd hefyd yn gwella ac yn ailagor rhannau o lwybr 10 mlynedd hanesyddol, Llwyr y Morwyr, rhwng Nefyn a Llanbedrog, gan greu llwybr newydd ag arwyddion cyfeirio rhwng arfordiroedd gogleddol a deheuol Penrhyn Llŷn. Dros flwyddyn bydd elfen gyfalaf y prosiect yn cynnwys gosod arwyneb newydd ar y llwybr troed arfordirol rhwng Nefyn a Morfa Nefyn a gwaith ar Lwybr y Morwyr gan gynnwys clirio rhannau o'r hawliau tramwy cyhoeddus, ffensys, llwybrau pren a gosod pontydd sliper, camfeydd a gatiâu. Bydd Cydlynnydd amser llawn yn cael ei gyflogi i reoli'r gwaith cyfalaf, hyrwyddo a marchnata'r llwybrau cerdded newydd a hanes a diwylliant yr ardal. Bydd y prosiect hefyd yn cysylltu â'r gwasanaeth bws cymunedol 'O Ddrws i Ddrws' i ddarparu gwasanaethau codi a gollwng ar gyfer cerddwyr ar hyd y llwybr.	£300,000



Cyngor Sir Ceredigion	Bydd y prosiect yn codi proffil morlin Ceredigion fel lle i ymweld ag ef trwy gydol y flwyddyn. Fel prosiect mewn dwy ran, bydd yr elfen gyntaf yn canolbwyntio ar ran Ceredigion Llwybr Arfordirol Cymru, trwy wella arwyddion, gwaith dehongli a mân welliannau ar hyd y llwybr. At hynny, bydd arwyddion arbennig i ymwelwyr â'r traeth yn cael eu defnyddio i wella cyfrannu at statws baner las traethau Ceredigion. Ail elfen y prosiect fydd cyflogi Swyddog Datblygu Busnes (BDO) i wella perfformiad economaidd cymunedau'r arfordir a'r busnesau ynddynt. Bydd y BDO yn gweithio'n ddwys gyda microfusnesau ar hyd morlin Ceredigion ar sail 1 i 1 a grŵp, gan adnabod tueddiadau, cyfeirio at wasanaethau, datblygu presenoldeb ar-lein ymysg llawer o wasanaethau a gynigir. Yn ogystal â gweithio gyda busnesau, bydd y BDO yn gweithio gyda chymunedau i hyrwyddo holl agweddau a chyfleusterau ardaloedd arfordirol i ddatblygu ymagwedd gydlynol a fydd yn arloesol ac yn gynaliadwy.	£150,718
Bluestone Brewing Company Limited	Bydd prosiect un flwyddyn Bluestone Brewing yn addasu adeiladau presennol i ddarparu cyfleuster ymwelwyr, swyddfa a chyfleusterau storio poteli. Bydd hyn yn helpu'r cwmni i hwyluso gwerthiannau a darparu cyfleuster tywydd gwlyb ym Mharc Cenedlaethol Sir Benfro. Bydd yn apelio at dwristiaid a phobl leol gydag arddangosiadau addysgiadol a llawn gwybodaeth am y broses fragu, hanes lleol a hyrwyddo agweddau amgylcheddol bragdy bach. Bydd yr adeilad hefyd yn arddangos cynnyrch lleol i fewnforwyr tramor/asiantau a bydd modd hwyluso cyfarfodydd masnachol gydag ymgynghorwyr a phartion eraill. Fel rhan o'r gweithgarwch ehangu hwn ac er nad ariennir gan y grant hwn, bydd y grŵp yn cyflogi bragwr ychwanegol a fydd yn galluogi un o'r cyfarwyddwyr i symud o fragu i reoli gwerthu a gweithgareddau ehangu'r farchnad.	£80,746
Fishguard and Goodwick Chamber of Trade and Commerce	Bydd y prosiect yn hyrwyddo ac yn ehangu Gogledd Sir Benfro fel cyrchfan ymwelwyr trwy ddatblygu a chydlynu'r cynnig twristiaeth. Trwy wneud defnydd gwell o gyfleusterau presennol, digwyddiadau a hyrwyddiadau newydd bydd yr ymgeisydd yn cyfnerthu busnesau ac atyniadau lleol ac yn darparu ymagwedd fwy cydlynol at "werthu" Gogledd Sir Benfro. Mae (Cwmni Fferis) Stena a Threnau Arriva'n bwriadu cynnig pecynnau marchnata a disgownt wedi'u targedu i gysylltu â'r calendr digwyddiadau i wneud ymweld yn fwy atyniadol (ac yn rhatach). Bydd y prosiect dwy flynedd yn creu buddion ar gyfer dros 500 o fudiadau twristiaeth a masnachol, yn estyn y tymor twristiaid ac yn codi gwariant twristiaid.	£291,032
Menter y Felin Uchaf Cyf	Bydd y prosiect dwy flynedd hwn yn creu Canolfan Archeoleg, Mytholeg ac Adrodd Storiâu (CAMAS) newydd ar safle Menter y Felin Uchaf Cyf ar Benrhyn Llŷn yng Ngwynedd. Bydd y ganolfan yn cael ei hadeiladu â llaw o ddeunyddiau naturiol a bydd yn cynnwys deunyddiau dehongli cyfoes i ymwelwyr, cyfleusterau arddangos a gweithdai ar gyfer crefftwyr lleol. Bydd elfen refeniw'r prosiect yn cynnwys costau cyflogau Rheolwr Prosiect, Gweinyddwr a chostau cyffredinol. Defnyddir arian cyfalaf i adeiladu'r adeilad a'r ffioedd proffesiynol cysylltiedig.	£298,900

Cardigan Bay Watersports	<p>Bydd y prosiect yn ehangu'r prosiect datblygu/adnewyddu cymunedol a sefydlwyd yn 2003 trwy ddarparu cynnyrch/gweithgareddau newydd, cyfarpar wedi'i uwchraddio a rheolaeth broffesiynol. Byddai'r arian grant yn cyfrannu at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fflyd gymysg o ddingis hwyllo, rhai un llaw, rhai dwy law i ddiwallu anghenion cyfranogwyr 16 oed ac yn hŷn</li> <li>• Uwchraddio badau sicrhau diogelwch i fodloni cymarebau sicrhau diogelwch y Gymdeithas lotiau Brenhinol (RYA) a bodloni gofynion y cwmni yswiriant.</li> <li>• Ysgogi buddsoddiad (i) Rheolwr Datblygu Busnes a darparu cyllideb farchnata (ii) Uwch Hyfforddwr Tymhorol a hyfforddwr gweithgareddau lluosog ychwanegol (iii) swyddi hyfforddeion i ehangu'r adnodd staff cymwysedig.</li> <li>• Prynu cyfarpar i gyflwyno gweithgareddau newydd (sglefrio dŵr, tonfyreddio, teithiau caiac) a hyfforddi'r staff i gyflwyno'r rhain.</li> </ul>	£123,974
Cyngor Gwynedd	<p>Bydd prosiect dwy flynedd Cyngor Gwynedd yn datblygu 13 llwybr llinol neu gylchol wedi'u hadnabod sy'n cysylltu cymunedau â Llwyr Arfordir Cymru. Nod y prosiect yw mwyaflu'r budd economaidd o Lwybr Arfordirol Cymru mewn pum ardal arfordirol yng Ngwynedd sef Bangor, Clynnog Fawr, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Bydd y prosiect yn uwchraddio hawliau tramwy cyhoeddus presennol ac yn darparu gwybodaeth well i ymwelwyr trwy ailddatblygu'r wefan Eryri Môr a Mynydd a chynhyrchu deunyddiau dehongli ar gyfer cerddwyr, Bydd yn gweithio hefyd gyda'r darparwr cludiant cymunedol presennol 'O Ddrws i Ddrws' yn ardal Llŷn i gydlynu gwasanaeth bws codi a gollwng ar alw ar gyfer cerddwyr. Bydd y prosiect yn cyflogi Cydlynnydd Marchnata newydd. Mae'r cais am grant hefyd yn cynnwys ariannu am 10 awr yr wythnos ar gyfer Swyddog Llwyr Arfordir Cymru. Bydd yn ariannu cyflogau Cydlynnydd ar gyfer O Ddrws i Ddrws a Gyrrwr.</p>	£280,205